# Y Weithdrefn Un Ynad

Canllaw cam wrth gam i sut mae'r broses yn gweithio.

TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU

# Beth sy'n digwydd cyn y Weithdrefn Un Ynad

**Swyddog Trwyddedu Teledu yn ymweld**

- Gweld nad oes trwydded, ond yn penderfynu neu'n amau bod angen un arnoch
- Rhoi cyfweliad i chi dan rybuddiad

Penderfyniad yn cael ei wneud i erlyn yn seiliedig ar amgylchiadau.

Byddwch yn cael Hysbysiad Gweithdrefn Un Ynad (SJP). Mae hyn yn golygu ei bod yn bosib y bydd eich achos yn cael ei benderfynu gan ynad heb i chi orfod mynd i'r llys.
Mae gennych **21 diwrnod i ateb**.

## Cynnwys


**02** Mewn ymateb i'r llythyr, rydych yn pledio'n **euog**

**03** Mewn ymateb i'r llythyr, rydych yn pledio'n **ddieuog**

**04** Os nad ydych yn ateb o **fewn 21 diwrnod**

# Mewn ymateb i'r llythyr, rydych yn pledio'n **euog**

Rydych chi'n penderfynu a ydych am fynd i'r llys ai peidio.

**Na**

Gallwch anfon unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ynghylch eich amgylchiadau a'ch sefyllfa ariannol at y llys gyda'ch ple euog.

**Ie**

Cewch lythyr yn dweud pa bryd fydd angen ichi fynd i'r llys.

Rydych yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth ynghylch eich amgylchiadau a'ch sefyllfa ariannol yn y llys.

Bydd yr ynad yn gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth sydd ganddo ac yn dweud wrthych beth yw'r penderfyniad os byddwch yn mynd i'r llys.

Cewch lythyr yn dweud beth yw'r penderfyniad. Gallai hwn fod yn ddirwy o hyd at £1,000 yn ogystal â Gordal Dioddefwr (40% o'r ddirwy y gofynnwyd i chi ei thalu) a chostau erlyn. Byddwch hefyd yn cael dedfryd lai am bledio'n euog (hyd at 33% yn llai).

Os ydych yn y llys, gallwch ddweud wrthynt sut rydych am dalu. Neu byddwch yn cael llythyr.

Gallwch dalu'r ddirwy drwy gysylltu â'r llys neu ar-lein. Gallwch dalu'r cyfan gyda'i gilydd neu dalu ychydig bob wythnos.*

*Gall y llys wneud cais am awdurdod i gasglu'r ddirwy a'r costau yn uniongyrchol o'ch tâl a'ch budd-daliadau.

# Mewn ymateb i'r llythyr, rydych yn pledio'n **ddieuog**

Mae'n rhaid i chi fynd i'r llys. Cewch lythyr yn dweud pa bryd fydd angen ichi fynd i'r llys. Os na fyddwch yn mynd i'r llys, bydd yr achos yn parhau heb i chi fod yno.

Bydd yr erlyniad yn cyflwyno'u tystiolaeth ac yn eich holi ynghylch unrhyw dystiolaeth rydych yn ei roi i'r llys. Cewch holi tyst yr erlyniad a chyflwyno unrhyw dystiolaeth yn y llys.

Bydd yr ynad yn gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth sydd ganddo ac yn dweud wrthych beth yw'r penderfyniad os byddwch yn mynd i'r llys.

Os bydd y llys yn penderfynu eich bod yn **ddieuog**, ni fydd angen gwneud dim arall.

Os bydd y llys yn penderfynu eich bod yn **euog**...

Gallwch ddweud wrth y llys am unrhyw wybodaeth ynghylch eich amgylchiadau a/neu wybodaeth ariannol, er mwyn i'r llys ystyried hyn.

Bydd y llys yn dweud wrthych beth yw ei benderfyniad. Gallai hwn fod yn ddirwy o hyd at £1,000 yn ogystal â Gordal Dioddefwr (40% o'r ddirwy y gofynnwyd i chi ei thalu) a chostau erlyn.

Gallwch dalu'r ddirwy drwy gysylltu â'r llys neu ar-lein. Gallwch dalu'r cyfan gyda'i gilydd neu ofyn i'r llys drefnu i chi gael talu ychydig o'r ddirwy bob wythnos.*

*Gall y llys wneud cais am awdurdod i gasglu'r ddirwy a'r costau yn uniongyrchol o'ch tâl a'ch budd-daliadau.

# Os nad ydych yn ymateb o **fewn 21 diwrnod**

Bydd yr achos yn parhau. Bydd yr ynad yn gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth sydd ganddo.

Rydych yn colli eich cyfle i esbonio eich amgylchiadau. Rydych yn colli eich cyfle i gael dedfryd lai os ydych yn pledio’n euog. Efallai y bydd eich dirwy'n fwy hefyd, os nad yw’r llys yn ymwybodol o’ch sefyllfa ariannol.

Os bydd y llys yn penderfynu eich bod yn **ddieuog** – dim angen gwneud dim arall

Os bydd y llys yn penderfynu eich bod yn **euog**...

Bydd y llys yn dweud wrthych beth yw ei benderfyniad. Gallai hwn fod yn ddirwy o hyd at £1,000 yn ogystal â Gordal Dioddefwr (40% o'r ddirwy y gofynnwyd i chi ei thalu) a chostau erlyn.

Gallwch dalu'r ddirwy drwy gysylltu â’r llys neu ar-lein. Gallwch dalu’r cyfan gyda’i gilydd neu ofyn i’r llys drefnu i chi gael talu ychydig o’r ddirwy bob wythnos.*

*Gall y llys wneud cais am awdurdod i gasglu'r ddirwy a’r costau yn uniongyrchol o’ch tâl a’ch budd-daliadau.

# Rhagor o wybodaeth am y Weithdrefn Un Ynad

Ewch i **gov.uk/hysbysiadau-gweithdrefn-un-ynad**

TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU